GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Archwilio'r perthnasoedd a'r llwybrau sy'n cysylltu addysg ag iechyd, lles a thegwch

Sesiwn Friffio



## Cwestiynau ymchwil

- Sut mae addysg yn effeithio ar ganlyniadau iechyd, lles a thegwch?
- Ym mha wahanol ddulliau a llwybrau y mae addysg a chyrhaeddiad yn cael effaith ar ganlyniadau iechyd, lles a thegwch/anghydraddoldeb?
- Beth yw natur y dystiolaeth ar gyfer y llwybrau?

## Yr hyn a wnaethom

Cynhaliwyd chwiliad systematig, cyflym o lenyddiaeth. Chwiliwyd ar Google Scholar, dewiswyd cronfeydd data o lenyddiaeth a adolygwyd gan gymheiriaid (MEDLINE, APA PsychInfo, ERIC), gwefannau llenyddiaeth lwyd (y Sefydliad Polisi Addysg, y Sefydliad Gwaddol Addysgol, y Sefydliad Iechyd, y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, Sefydliad Nuffield, y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) a ffynonellau'r Llywodraeth ym mis Mai a mis Mehefin 2022. Cynhwyswyd cyfanswm o 31 o bapurau yn yr adolygiad ar ôl sgrinio ar gyfer cymhwysedd.

O ganlyniad i natur yr adolygiad, ni chynhaliwyd arfarniad beirniadol ffurfiol. Lluniwyd tabl o ddata a gasglwyd a oedd yn cynnwys gwybodaeth fel dulliau, canfyddiadau a chyfyngiadau papurau.

## Canfyddiadau allweddol

Mae cysylltiad cryf a pharhaus rhwng addysg a nifer o ganlyniadau iechyd mewn nifer o leoliadau, ond ceir rhai eithriadau. Mae addysg yn effeithio ar iechyd trwy lwybrau cymhleth a rhyng-gysylltiedig na ellid eu gwahanu. Mae'r papurau'n ymchwilio i'r dulliau sy'n caniatáu i hyn ddigwydd ac yn amlygu 3 phrif lwybr:


- Gwaith ac incwm trwy amodau gwaith, adnoddau cysylltiedig â gwaith ac incwm
- Yr amgylchedd seicogymdeithasol trwy ymdeimlad o reolaeth, statws cymdeithasol a chymorth cymdeithasol
- Gwybodaeth, llythrennedd ac ymddygiadau iechyd

*ISBN: 978-1-83766-288-3*

## Beth mae hyn yn ei olygu

- Gellir ystyried addysg fel dull hidlo sy'n effeithio ar bob agwedd ar fywyd. Mewn cymdeithas, mae'n effeithio nid yn unig ar yr unigolyn, ond hefyd ar y gymuned a pholisi cymdeithasol ehangach
- Gall addysg sbarduno cyfle, ond fe all hefyd fytholi cylchoedd o anfantais economaidd-gymdeithasol a rhwng y cenedlaethau
- Mae'r berthynas rhwng addysg ac iechyd yn dibynnu ar y cyd-destun gwleidyddol a chymdeithasol ehangach
- Gallai addysg wella iechyd a marwoldeb i raddau llai yn Ewrop nag yn yr Unol Daleithiau, o ganlyniad i'r lefel o gymorth a gwasanaethau eraill fel gofal iechyd a mynediad atynt
- Mae'n ymddangos bod rhywedd ac ethnigrwydd yn dylanwadu ar i ba raddau y mae addysg yn effeithio ar iechyd, ac fe allai'r gwahaniaethau hyn fod yn bwysicach mewn grwpiau incwm is
- Mae angen i waith ymchwil yn y dyfodol edrych y tu hwnt i gyrhaeddiad a lefel addysg unigol a chynnwys sgiliau a gwybodaeth ehangach y mae disgyblion yn eu cael yn ystod eu cyfnod yn y system addysg

**Ffigur 1**: llwybrau o addysg i iechyd (a fabwysiadwyd o fodelau a diagramau a amlygwyd yn yr adolygiad o lenyddiaeth Archwilio'r perthnasoedd a'r llwybrau sy'n cysylltu addysg ag iechyd, llesiant a thegwch)




1. Ffactorau sy'n drysu ac yn cymedroli; 2. Yswiriant iechyd, absenoldeb oherwydd salwch, budd-daliadau